

## Taith Bioamrywiaeth Rhondda Cynon Taf

Mae Cymoedd y de yn drysor cudd o fioamrywiaeth. Yr hyn sy'n nodweddiadol am drysor cudd yw eu bod nhw'n mynd yn angof. Dim ond nawr y mae'r trysor yma yn y Cymoedd wedi'i darganfod, ac yn debyg i brosiect cloddio archeolegol enfawr, mae darganfod un peth wedi arwain at ddarganfod rhywbeth arall.

Mae'r bobl leol wedi dechrau deall sut y mae eu hardal leol yn rhan o'r cyd-destun ehangach, ac mae'r arbenigwyr wedi sylweddoli arwyddocâd ein bioamrywiaeth. Ac mae'r syndod cymaint yn fwy, o ystyried bod y Cymoedd yn cael eu gweld yn ddiffaith ac yn llygredig, yn ddirwasgedig ac yn ddirywiedig. Dyma'r lle olaf i fioamrywiaeth ffynnu. Serch hynny, mae'r realiti yn ddarlun hollol wahanol. Drwy feddwl agored (ynghyd ag ychydig bach o wybodaeth) mae'r gyfrinach tu ôl i lwyddiant bioamrywiaeth y Cymoedd yn amlwg. Mae'r holl hanfodion ar gyfer bioamrywiaeth ffrwythlon yn eu lle. Mae hyn yn rhannol o ganlyniad i'r: priddoedd gwael ond amrywiol, y topograffeg, geomorffoleg a daeareg ddwys a chymhleth, hinsawdd wlyb, ysgafn hyfryd, rheolaeth fferm fechan draddodiadol ac etifeddiaeth ddiwydiannol y Cymoedd, a rhyngweithio dyddiol y bobl â'u hamgylchedd. Diolch i'r cymysgedd nodedig o amodau ac amgylchiadau, mae Cymoedd y De yn llwyddo i gynnal amrywiaeth o gynefinoedd tir isel ac ucheldir. Does unman gwell yn ne Prydain yn hyn o beth. **Mae Rhondda Cynon Taf yng nghanol y Cymoedd, ac wrth wraidd y cyfoeth o fioamrywiaeth yma.** Dyma le mae tirwedd a bioamrywiaeth yn dod at ei gilydd, a lle mae gan y golygfeydd sylwedd a dyfnder bioamrywiaeth. Nid darlun cerdyn post arwynebol o'r gorffennol yw hyn sydd wedi'i seilio ar dwyll ac enw da gwyw. Dyma dirwedd fioamrywiol syfrdanol a deinamig, ac sy'n rhan annatod o ymdeimlad unigryw o leoliad a pherthyn. Er mwyn profi hyn, dewch i ni fynd ar daith o gwmpas Rhondda Cynon Taf. Ond ble dylen ni gychwyn?

Efallai dylen ni ddechrau ar borfeydd rhôs yng Nghymoedd isaf Taf ac Elái, a phorfeydd Cwm Cynon Uchaf. Yma, cewch chi weld cymunedau rhyngwladol pwysig o borfeydd brwyn a glaswellt y gweunydd, sy'n parhau i fod yn nodweddiad y dirwedd. Yn ystod yr haf bydd y porfeydd rhôs yn llawn clafrrlys gwreidd-dan, ysgallen y ddôl a thegeirian brith y rhos. Yn ogystal â hyn, maen nhw'n cynnal nythfeydd o löynnod byw brithion y gors a brithion perladeiniog. Yn sicr, dyma dirwedd heb gynllun ar ôl gweld patrymau hynafol y caeau â gwrychoedd hynach fyth y goedwig wreiddiol. Daw pathewod i ymgarrefi yn y **gwrychoedd** cyll, derw, onnen, drain gwynion, helyg, drain duon, rhosod, cwyrwial, pisgwydd a chelyn. Trwy'r rhwydwaith o wrychoedd yma mae gweddillion ein coetiroedd yn parhau i fod yn gysylltiedig ac yn hyfyw.

Mae ochr y cymoedd yn Rhondda, Cynon a Thaf-elái yn dangos cysylltedd bioamrywiaeth yn berffaith. Cewch chi weld y gymysgedd o gynefinoedd sy'n ffurfio **ffridd** y cymoedd o unrhyw arhosfa bws ym Mhontypridd, neu'r Porth, neu Aberdâr neu Aberpennar. Mae yna gymysgedd gymhleth o laswelltir asidig, rhostir, rhedyn,

coetir, prysgwydd a fflysiau am filltiroedd lawer ar hyd ein prif gymoedd; a phob un wedi'u cyd-gysylltu i greu mosaig o gynefinoedd cyfnewidiol.

Mae'r ffridd yn gartref i glychau'r gog, madfallod, nadroedd defaid, loynnod llwydion a chacwn yr ucheldir. Mae'r llethrau rhedyn sy'n llawn fioledau yn gynefin pwysig ar gyfer glöynnod brith, gan gynnwys poblogaethau pwysig y glöynnod brith gwyrdd tywyll (ac o bosib poblogaeth prin y glöynnod brith brown). Os oes gennych chi lygaid craff, cewch chi weld **tomenni gwaith glo**, gwaith drifftiau bach, tomenni siâp wyau ac, os ydych chi'n ffodus, fe welwch un o'n systemau tipio sy'n weddill, sy'n ymryson â Chaerau Celtaidd Dorset. Mae lleoliadau Tipiau'r Gelli, Old Smokey, Wattstown a Thipiau Cwm Dâr yn adrodd hanesion sy'n aml yn rhai anodd a thrasig. Erbyn hyn mae'r lleoliadau yma yn cynnal cynefinoedd o fioamrywiaeth enfawr a gwerth diwylliannol. Mae'r rhain yn dirffurfiau â gwerth unigryw ac yn dyst byw o'r ymdeimlad o berthyn, sy'n parhau i fod yn gryf yn ein cymoedd mwngloddio. Mae tomenni glo yn ymddangos i fod yn hynod bwysig ar gyfer cymunedau cen-rhos lle mae rhostir yn tyfu ymhlith matiau gwyn o *gennau byseddog*. Cewch chi weld yr enghreifftiau gorau o gen-rhos yng Nghymru ar yr hen domenni glo yn Rhondda Cynon Taf. Cadarnhaodd gwaith diweddar pwysigrwydd y tipiau yma fel cynefin ar gyfer infertebratau. Cofnododd gwaith arolygu i 5 tip yn Rhondda Cynon Taf 85 rhywogaeth gwenyn (gan gynnwys rhywogaethau prin); dyma hanner y ffawna hysbys o wenyng Cymru a thraean rhestr y Deyrnas Unedig.

O domen glo'r 1890au, crwydrwch i'r goedwig hynafol o dderw'r ucheldir, lle mae'r coed nychlyd yn cydio wrth y cymoedd. Mae'r llawr yn garped o fflora'r ddaear gan gynnwys lluswydd, grug, rhedyn, mwsogl a slabiau tywodfaen penwn â'u planau gwely'n llawn cennau. Mae'r goedwig yma'n gartref i adar cân coetiroedd Cymru: tingochiaid, telorion y coed a chorhedyddion y coed. Ar waelod y cymoedd, mae'r coetiroedd collddail cymysg yn cynnal derw, onn, sycamorwydd a llwyfenni llydanddail, gyda'r wern a'r helyg yn tyfu ar dir gwlypach. Yma, ceir isdyfiant ffrwythlon o winllannau'r gollen a'r gelyn. Ar y calchfaen deheuol ceir cwyrwial, piswydd, masarn bach ac ambell gwifwrnwydden. Mae gan y goedwig fflora daear hyfryd, gan gynnwys blodau'r gog, blodau'r gwynt, fioledau, clust yr arth, garlleg gwyllt, briallu, mwsglys, dwyddalen a deintlys cennog. Mae adfer ffyngau coetir a chymunedau cen yn dystiolaeth o'r aer glân. Mae canghennau, bowlenni a brigau wedi'u gorchuddio â chennau a ffyngau coed. Yn ddiweddar, cafodd planhigion prin eu darganfod fel ffwng menig yr helyg a chen lygad aur; dyma gyfnodau cyffrous ar gyfer cenhenolegwyr a mycolegwyr lleol.

Os safwch chi mewn cwrt hen fferm, neu mewn ysgubor, neu dŷ teras ar noson braf yr haf, cyfrifwch yr ystlumod sy'n ymddangos o'u clwydi oriau dydd. Ar wawr yn yr hydref, ewch i sefyll ger twnnel rheilffordd segur neu fynedfa hen bwl glo a chadwch lygaid allan am ystlumod yn heidio, sy'n arwydd o baratoi am gaeafgws. Efallai y byddwch chi'n dod o hyd i safle gaeafgysgu sylweddol? Mae o leiaf 13 rhywogaeth ystlumod yn bodoli yn Rhondda Cynon Taf, gan gynnwys rhai prin fel yr ystlum barbastél a'r ystlum pendol lleiaf. Ar ben arall y raddfa, mae arolygwyr ystlumod yn

galw Pontypridd yn 'Pip City' oherwydd y niferoedd mawr o ystlumod lleiaf cyffredin a soprano sy'n byw yn y dref.

Mae modd 'olrhain' cynefinoedd penodol tuag at adeg yr haen ia diwethaf, 8,000 o flynyddoedd yn ôl. Dechreuodd llawer o'n cynefin mawnog ar ôl y cyfnod yma, tra gwnaeth rhewlynnoedd, ceulannau a llwyfandiroedd yr ucheldir ymdreiddio drwy'r corsydd i mewn i'r mawn. Mae'r rhyfeddodau crÿn ac ysgytwol yma'n gartref i lugaeron, gwllithlys, llafn y bladur sy'n tyfu ymhlith y migwyn a'r tuswau o laswellt y gweunydd a chlwbfrwynen y mawn. O dro i dro bydd giach yn bridio mewn ardaloedd fel hyn. Mae tir comin Llantrisant, Hirwaun a Thonyrefail yn ardaloedd hynod bwysig ar gyfer corsydd yr iseldir. Mae cofnodion mawn a phaill yn yr ardal wedi siartio'r newidiadau llystyfiant dros 8 mil o flynyddoedd. Mae modd olrhain yr hanes o dan 9 metr o fawn, i lawr i ddŵr gweddill y rhewlyn coll. Er yr holl gamddefnydd a'r camddeall, mae'r corsydd yma wedi goroesi. Bellach, mae ymdrechion i'w gwarchod a'u hadfer wedi dechrau. Yn yr un modd, cafodd gorgorsydd helaeth yr ucheldir eu trin a'u draenio ar gyfer porfa neu'u coedwigo â sbriwsen sitca. Serch hynny, lle mae'r tyrbinau gwynt yn troi, cewch chi weld adferiad mawnog sylweddol yn ôl gofynion caniatâd cynllunio. Mae mawn yr ucheldiroedd yn storio a rheoli dŵr storm yr ucheldir, ac felly'n creu'r dull mwyaf 'gwyrrdd' ar gyfer diogelu rhag llifogydd i gymunedau'r Cymoedd sydd islaw. Yn ogystal â hynny, byddai'r miloedd o bennau glaswellt cotwm yn dal carbon atmosfferig. Felly, yn y blynyddoedd i ddod, mae yna bosibilrwydd o adennill cannoedd o hectarau o fawn yr ucheldiroedd. Efallai eich bod chi'n teimlo hwrdd o obaith bod gennym ni'r gallu i ddysgu? Mae hyn yn willtir, ond mae'n agos at ein cartrefi, ac mae'n fioamrywiaeth ddieithr i raddau helaeth, gyda fawr ddim o wybodaeth amdani. Ar eich taith, peidiwch â cholli cyfle i ymweld ag ymylon planhigfa'r goedwigaeth. Cewch chi weld pila gwyrdd a gyflingroes yn llu, cuddfan y cnwp-fwsogl, crëyrfeydd yn siglo yng nghegid y gorllewin, a gyda chyfnos yr haf mae'r troellwyr mawr yn trydar.

Pan ddaw mis Mehefin, ewch i weld eich glaswelltir lleol sy'n llawn rhywogaethau, dôl gwair, neu borfa â merlod neu wartheg yn pori. Efallai bydd y lleoedd yma yn edrych fel caeau arferol yn ystod y gaeaf, ond yn gynnar yn yr haf mae'r arddangosfa flodau yn brawf o gynefin arall sy'n brin yn genedlaethol. Rydyn ni'n ffodus iawn yn Rhondda Cynon Taf bod gennym ni dreftadaeth glaswelltir wych, sy'n rhan fywiog o'n ffabrig bioamrywiaeth. Mae porfeydd ac ymylon ffyrdd yn lleoedd delfrydol ar gyfer troed yr iâr, y bengaled benddu, llygad llo mawr, tegeirian brych, peradyl garw a meillionen goch. Mae'r planhigion yma, felly, yn gartref i'r glöyn byw glesyn cyffredin, y gwyfyn hen wrach, sioncyn y gwair, a niferoedd mawr o wenyn. Mae glaswelltir sych ar lethrau uchaf y cymoedd yn fwy asidig, ond maen nhw'r un mor brydferth. Cewch chi weld enghreifftiau o friwydd wen, tresgl y moch, bwrned mawr, clychau'r gog a suran yr yd, tra bod y cerrig calch wedi'u gorchuddio â briallu mair a thegeirian y wenynen. Yn ystod fore braf yr hydref, cadwch lygaid allan am ddangosydd arall o gyfoeth bioamrywiaeth; y coch, oren, melyn a phorffor sydd ar y ffyngau cap cŵyr.

Ar ddiwrnod braf yr haf, beth am oedi ychydig a throchi'ch traed mewn nant ucheldirol, neu grwydro ar hyd glannau'r Cynon, Rhondda, Elái neu Daf. Deugain mlynedd yn ôl, roedd yr afonydd yma'n farw a difywyd. Erbyn hyn maen nhw'n gyrsiau dŵr bioamrywiaeth iachus, sy'n gartref i lawer o gerrig a gwybed Mai, Bronwen y Dŵr, siglen lwyd, brithyll, ac wrth gwrs, gyfrgŵn. Ar un adeg, roedd gan bob un o'n prif afonydd gorlifdroedd. Lleoedd lle byddai dŵr llifogydd yn y gaeaf yn llifo, a lle byddai gorlifdir, glaswelltir, coetir a gwlyptir yn ffynnu. Mae Cors y Pant yn Nhonysguboriau yn gartref i laswelltiroedd sy'n ffrwythlon o ran rhywogaethau a gellesg y gerddi. Ar hyd y ffordd, fe ddewch chi at Gors Coedcae, lle mae hesglwyni, gwiber a phumnalen y gors. Mae llynnoedd a phorfeydd gwlyb Caeau Tirfounder Aberdâr, yn cefnogi niferoedd rhanbarthol bwysig o fridio a gaeafu adar dŵr, nadroedd glaswellt a gweision neidr. Mae'r tirweddau trawiadol yma'n dal ac yn rhyddhau dŵr storm, sef llochesau bywyd gwyllt gwerthfawr sy'n arbed ein hystafelloedd byw rhag llifogydd.

Ar ddiwrnod ffres yn y gaeaf, mwynhewch ein tirweddau rhewlifol a'r cymoedd: lle cychwynodd y rhewlifoedd, a wnaeth gafnu a llunio'r cymoedd. Rhyfeddwch at fawredd Cwm Parc, Cwm Saebren a Chwm Dâr. Mae'r cymoedd rhewlifol mwyaf deheuol y Deyrnas Unedig yn gartref i'r hebog tramor a phlanhigion alpaidd yr arctig sy'n ddisymud; blodau a rhedyn sy'n glynu at y siliau mwyaf oerbraf a chysgodol gyda gobaithe y bydd hafau twndra yn dychwelyd. Ar ben Cwm Rhondda Fawr mae strydoedd teras Blaenrhondda yn sefyll, â phresenoldeb cefnen Pen Pych uwchlaw. Teithiwch ar hyd Cwm Rhondda Fach hyd at lethrau sgrï Cefn Craig Amos a Tharren y Maerdy. Yma caiff disgyblion Ysgol Gymuned Glynrhedynog eu hysbrydoli gan y sborion o dywodfaen ar y gefnlen fryniog eu hysgol.

Lle mae'r diwydiant wedi'i glirio, mae modd gweld ambell safle fioamrywiaeth '**tir llwyd**'. Yn aml, bydd safleoedd ôl-ddiwydiannol yn cefnogi mosaig anhygoel o gynefinoedd glaswelltir, gwlyptiroedd a choetiroedd sydd wedi datblygu'n naturiol ar dir diffaith. Mae gan y cymysgeddau eclecig yma o gynefinoedd lawer o bethau annisgwyl o ran bioamrywiaeth ac yn gartref i fadfallod dŵr, brogaod, glöynnod byw y gwibiwr llwyd, a gwyfynod cliradain wregysgoch.

Pa ffordd bynnag y crwydroch chi, wrth gyrraedd adref, cyfrifwch y rhedyn sydd ar wal flaen tŷ eich cymydog. Fedrwch chi weld y pedair fwyaf cyffredin: tafod yr hydd, duegerdin gwallt y forwyn, duegerdin cefngoch a duegerdin y muriau? Cofiwch gymryd ofal y tro nesaf y byddwch chi'n ailbwyntio'ch wal. Beth am geisio annog rhedyn i dyfu yn eich gardd chi? Wrth y giat, cymerwch saib i wyllo'r wenynen dorri dail yn cario dail mewn rholyn bach perffaith i'r nyth sydd yn y tyllau yn eich ffenestri UVPC dwbl. Rhyfeddwch ar y gwenoliaid duon sydd uwchlaw yn y llofft, a'r gwenoliaid y bondo sydd o dan y bondo. Maen nhw wedi teithio'n bell i'ch gweld chi, dros y Sahara a thu hwnt, a nifer o leoedd fyddwch chi byth mo'u gweld. Teimlwch yn falch bod adar y to yn gallu creu nythod a thrydar drwy gydol y flwyddyn yn eich estyllod bondo cartrefol. Gyda'ch trap gwyfynod, fe fydd gyda chi restr o 300 o wyfynod yn ymweld â'ch gardd, 50 rhywogaeth o wenyn (gyda lawnt yn llawn

tomenni gwenyn unigol), ugain broga a dwsinau o nadroedd defaid yn y domen gompost. Wedi'r cyfan, mae bioamrywiaeth yn dechrau o'r cartref.'